YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

1 Medi 2023

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,



*Enillodd 35% o fyfyrwyr Bl13 o leiaf 3 A*/A*

**Dechrau Tymor Medi 2023:** Mae'n bleser i ysgrifennu atoch ar ddechrau blwyddyn newydd yng Nglantaf wrth i ni edrych ymlaen at groesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol. Gobeithio hefyd eich bod wedi cael gwyliau haf hapus a hamddenol. Bydd Bl 7 a 12 yn dechrau'r tymor ddydd Mawrth 5 Medi gyda phob disgybl arall yn dechrau'r tymor ar ddydd Mercher 6 Medi.

**Canlyniadau Safon Uwch, BTEC, UG, TGAU a galwedigaethol:** Rydym yn falch iawn o ddathlu llwyddiant ein myfyrwyr yn eu harholiadau. O ran Blwyddyn 13, sicrhaodd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr leoedd yn eu dewis cyntaf Prifysgol neu ar gyfer cyrsiau newydd. Roedd y canlyniadau cyffredinol yn ardderchog, gyda 35% o fyfyrwyr yn llwyddo gydag o leiaf 3A* neu A o fewn Safon Uwch a 91% o bob gradd a ddyfarnwyd, yn A*- C. Mae'r graddau rhagorol yma yn dystiolaeth o ymroddiad aeddfed a gwaith caled ein myfyrwyr yn ogystal â chefnogaeth athrawon a thiwtoriaid yr ysgol. Llongyfarchiadau hefyd i fyfyrwyr Bl12 ar eu canlyniadau UG sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer astudiaethau Bl13. O ran Bl11, roedd yn wych i weld disgyblion yn dathlu a gweld bod 85% wedi sicrhau o leiaf 5 A*-C a 36% o fyfyrwyr yn ennill o leiaf 5 A*/A. Derbyniodd disgyblion yn Bl10 ganlyniadau mewn Gwyddoniaeth, Addysg Gefyddol a modiwlau yn Hanes, y Gymraeg a'r Saesneg oedd hefyd yn ganlyniadau sy'n argoeli'n dda ar gyfer Haf 2024. Llongyfarchiadau felly i'r holl ddisgyblion ar y canlyniadau hyn ac rydym yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad didwyll i gymuned Glantaf.


*Llongyfarchiadau Bl 13!*

**Staff newydd:** Rydym yn falch o groesawu aelodau newydd o staff a fydd yn dechrau gyda ni yng Nglantaf ym mis Medi. Maen nhw'n cynnwys, Pennaeth Cynnydd a Lles Bl10, Mrs Ffion Berry; Mrs Sophie Spillane (Dirprwy Arweinydd y Saesneg); Ms Emily Jones a Mr Iwan Jones (Gwyddoniaeth); Ms Gwenno Davies (Add Gorfforol); Ms Fflur Mathias a Ms Bethan Thomas (Cymraeg); Ms Abigail Fraser a Mrs Eleanor Gardner (D&T); Ms Nia Squirrell (Cerdd); Ms Nia Richardson (Technoleg Digidol); Ms Rachel Phelps (Drama); Mr Hari Bowen (Dyniaethau) a Mr Mathew Pritchard (Anogwr Dysgu CA5) yn ogystal â Ms Mya Hurst, Mr Saul Tanhai, Mr Sam Powell a Mr Steffan Amos sy'n ymuno a'n tîm cymorth dysgu. Rydym hefyd yn croesawu ein derbynnydd newydd, Ms Charlotte Hill a'r technegydd D&T, Mr Evan Jones.

**Noson y Rasus – 15 Medi yng Nghlwb Tenis yr Eglwys Newydd:** Ymunwch â ni am noson hwyliog i gefnogi *Cyfeillion Glantaf*, gyda chyfle i ddod i adnabod eraill yng nghymuned yr ysgol. Mae tocynnau ar gael ar *ParentPay* - ond peidiwch ag oedi gan fod y niferoedd yn gyfyngedig. Byddai'n hyfryd croesawu wynebau cyfarwydd a newydd wrth i ni ddechrau'r flwyddyn gyda'n gilydd! *Croeso i bawb!*

**Cludiant ysgol:** Dylech fod wedi derbyn cadarnhad o lwybrau bysiau a thacsis os yw'ch plentyn yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim. Mae amserlen Bws Caerdydd hefyd ar gael ar gyfer y bws 615: School Services from September 2023 - Cardiff Bus Bydd trwyddedau teithio yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion ar ddechrau'r tymor a bydd eu hangen ar gyfer pob taith o Ddydd Llun 11 Medi.


*Llwyddiant TGAU i Bl 11!*

**Cymru v Denmarc, 26 Medi:** Rydym yn falch iawn o gadarnhau ein bod wedi trefnu tocynnau i ddisgyblion Bl7 a Bl12 i fynychu gêm bêl-droed Cymru v Denmarc yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 26 Medi. Bydd yn gyfle gwych i ddisgyblion Bl 7 a'u Bydis i gefnogi Cymru gyda'i gilydd. Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu gyda chi yn fuan a bydd tocynnau ar gael ar *ParentPay*.


*Llongyfarchiadau i Bl 11 ar eu canlyniadau!*

**Cinio Blwyddyn 7:** Er mwyn cofrestru Bl7 ar ein system *ParentPay* yn gywir, gofynnwn yn garedig i ddisgyblion Bl7 ddod â phecyn cinio ar gyfer eu hwythnos gyntaf yn yr ysgol. Erbyn dydd Llun 11 Medi, dylai pob cyfrif fod yn weithredol. Yna, byddwn yn gwahodd Bl7 i'r ffreutur bob yn ail wythnos: disgyblion 7Dewi a 7Dyfrig mynediad i'r ffreutur (wythnos 2, Llun 11 Medi) ac yna 7Illtud a 7Teilo (wythnos 1, Llun 18 Medi). Bydd pob disgybl ym Ml 7 yn cael mynediad dyddiol i'r ffreutur o ddydd Llun 2 Hydref.

**Diogelwch ffyrdd a beiciau:** Rydym yn croesawu'r ddeddf 20mya newydd ac rydym yn eich atgoffa i beidio â pharcio na chasglu/gollwng disgyblion ar bwys mynedfa'r ysgol. Rydym yn annog disgyblion i feicio i'r ysgol gan ddefnyddio lonydd beicio a'r Llwybr Taf. Dylai pob disgybl wisgo helmed ac mae angen cloi beiciau gan ddefnyddio ein ardaloedd diogel ac NID ar ffens yr ysgol ble bu nifer o ladradau, yn y gorffennol.

**Gwisg ysgol, ffonau symudol a phrydlondeb ar gyfer cofrestru:** Diolch yn fawr am eich cefnogaeth ynghylch gwisg ysgol gywir, wrth i ni groesawu disgyblion ar gyfer tymor newydd. Rydym hefyd yn atgoffa disgyblion na ddylid defnyddio ffonau yn ystod y dydd, yn unol â hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ar les a lleihau amser sgrin. Rydym hefyd yn gofyn am eich cefnogaeth i beidio ag anfon negeseuon testun neu wneud galwadau i'ch plant yn ystod y dydd. Bydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n defnyddio eu ffonau drosglwyddo eu dyfais i'r dderbynfa a'i gasglu ar ddiwedd y dydd. Yn olaf, neges atgoffa bod angen i bob disgybl fod ar y campws erbyn 8.30am. Bydd yn rhaid i'r rhai sy'n cyrraedd yn hwyr, o fis Medi gofrestru yn y dderbynfa a rhoi eu ffôn symudol i mewn am weddill y dydd. Diolch i chi am eich cefnogaeth yn y materion hyn.



**Medal Aur:** Llongyfarchiadau i Tomi Roberts-Jones (Bl13) ar ei Fedal Aur hanesyddol, y gyntaf erioed i Gymru yng Ngemau Ieuenctid Para y Gymanwlad yn y ras T38, 100m.

**Digwyddiadau yr wythnosau cyntaf:**

| | |
|---|---|
| 8 Medi | Bl 7 a 12 Lluniau unigol a grwpiau blwyddyn |
| 13 Medi | Ras Traws gwlad y llysoedd |
| 15 Medi | Taith gerdded Chweched Dosbarth / Noson Rasus *Cyfeillion Glantaf* |
| 18 Medi | Noson wybodaeth Bl12 ar *Teams* am 5pm (Cymraeg) a 6pm (Saesneg) |
| 26 Medi | Cymru v Denmarc gêm yn stadiwm Dinas Caerdydd - manylion i ddilyn |
| **28 Medi** | **HMS Ysgol** (Diwrnod hyfforddiant staff y clwstwr – dim ysgol i ddisgyblion) |
| 3-6 Hyd | Taith breswyl Bl 7 i Langrannog |

**Cysylltwch â ni / Gwefan**: Os ydych chi'n ymuno â ni fel rhiant newydd, cofiwch am ein gwefan: Ysgol Glantaf Mae manylion cyswllt ein Arweinwyr Cynnydd a Lles hefyd ar gael yma**:** Arweinwyr Cynnydd a Lles | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf Cofiwch hefyd i gysylltu â ni yn yr ysgol mewn achos o ymholiad neu bryder a dilyn ein cyfrif trydar am unrhyw ddiweddariadau: @Ysgol_Glantaf

Yn gywir

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf


*Pawb yn gwenu wrth ddathlu canlyniadau TGAU!*